**Shan Morgan**
Ysgrifennydd Parhaol
Permanent Secretary

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Aelodau'r Cynulliad
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

16 Mawrth 2018

Aelodau'r Cynulliad,

**Adroddiad yr Ymchwiliad i Rannu Gwybodaeth Heb Awdurdod**

Ar 28 Chwefror, pasiwyd penderfyniad gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn galw arnaf i gyhoeddi, gyda'r golygiadau priodol er mwyn sicrhau bod y tystion yn parhau i fod yn anhysbys, yr adroddiad i'm hymchwiliad ynghylch "a oes unrhyw dystiolaeth y cafodd gwybodaeth ei rhannu o flaen llaw heb ganiatâd – hynny yw, y datgelwyd gwybodaeth heb ganiatâd – gan Lywodraeth Cymru ynghylch yr ad-drefnu gweinidogol diweddar."

Yng ngoleuni'r penderfyniad hwn, mae'r Prif Weinidog wedi gofyn i mi edrych eto ar fy safbwynt sef, yn unol â gweithdrefnau sefydledig Gwasanaeth Sifil y DU, na ddylid datgelu'r adroddiad rhag ofn y byddai hynny'n niweidio ymchwiliadau yn y dyfodol.

Ar ôl edrych yn ofalus iawn ar y pwyntiau a godwyd yn ystod y drafodaeth, rwyf wedi dod i'r casgliad bod modd i mi – yng ngoleuni penderfyniad y Cynulliad a sylwadau'r Aelodau – roi rhagor o wybodaeth am y ffordd y mae ymchwiliadau i rannu gwybodaeth heb awdurdod yn cael eu cynnal, a hynny heb niweidio trefn na chyfrinachedd ymchwiliadau yn y dyfodol.

Ni fyddai'n briodol i mi ryddhau unrhyw fanylion ynghylch pwy gafodd eu cyfweld yn ystod yr ymchwiliad na'r wybodaeth a roddwyd ganddynt. Yn ogystal â'r perygl amlwg o dorri cyfrinachedd data personol, byddai hynny hefyd yn rhwystro tystion posibl rhag camu ymlaen neu gydweithredu mewn ymchwiliadau yn y dyfodol gan na fyddent yn hyderus y byddai eu hawl i fod yn ddienw a chyfrinachedd yr wybodaeth sy'n cael ei rhoi yn cael eu diogelu. Yn yr un modd, nid wyf yn teimlo ei bod yn briodol rhyddhau'r adroddiad ei hun – yn llawn nac wedi'i olygu – gan y gallai hynny effeithio ar ymchwiliadau yn y dyfodol.

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE

Parc Cathays ● Cathays Park
Caerdydd ● Cardiff
CF10 3NQ

Ffôn ● Tel 0300 025 3289
PS.PermanentSecretary@llyw.cymru
Gwefan ● Website: www.llyw.cymru

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding

Mae ymchwiliadau Llywodraeth Cymru i achosion posib o rannu gwybodaeth heb awdurdod yn cael eu comisiynu gan yr Ysgrifennydd Parhaol, ar gais neu gyda chytundeb y Prif Weinidog. Maent yn cael eu cynnal fel rheol gan Brif Swyddog Diogelwch y Llywodraeth, sy'n brofiadol ac wedi'i hyfforddi i gynnal ymchwiliadau o'r fath. Y Prif Swyddog Diogelwch sy'n gyfrifol am benderfynu, o fewn y canllawiau safonol, sut i gynnal yr ymchwiliad a phwy mae'n dymuno eu cyfweld. Bydd yn cael cylch gorchwyl penodol ar gyfer yr ymchwiliad. Bydd yn fy nghyfarfod i a'r Cyfarwyddwr Llywodraethiant (ei reolwr llinell) yn rheolaidd i drafod cynnydd yr ymchwiliad. Pan fydd ei waith wedi'i gwblhau, bydd yn cyflwyno adroddiad terfynu i mi a'r Cyfarwyddwr Llywodraethiant. Mater iddo ef yn unig yw casgliadau'r ymchwiliad a chynnwys terfynol yr adroddiad ei hun. Ni fyddwn i nac unrhyw swyddog neu aelod arall o Lywodraeth Cymru yn, nac yn medru, gofyn iddo ddod i unrhyw gasgliad nad oedd yn cytuno ag ef.

Mae fframwaith safonol ar gyfer ymchwiliadau i achosion o rannu gwybodaeth heb awdurdod. Byddwch yn deall nad oes modd i ni roi gwybodaeth benodol, rhag tanseilio effeithiolrwydd ymchwiliadau yn y dyfodol, ond mae'n cynnwys gwerthuso'r holl wybodaeth yn ymwneud â rhannu gwybodaeth heb awdurdod, nodi'n union pwy oedd â mynediad at yr wybodaeth honno a phryd, ac edrych yn agos ar sut y gallai'r wybodaeth fod wedi ei rhyddhau i'r cyhoedd. Mae nifer o ddulliau ymchwilio'n cael eu defnyddio gan gynnwys, lle y bo'n briodol, gyfweliadau gydag unigolion o fewn cwmpas yr ymchwiliad. Nid yw'r broses yn un gwbl syml a phendant gan fod modd adolygu neu ailasesu camau wrth i ffeithiau ddod i'r amlwg. Pan fydd y gwaith wedi'i gwblhau, bydd y Prif Swyddog Diogelwch yn llunio casgliadau ar sail y dystiolaeth, ac yn cyflwyno adroddiad a'i ganfyddiadau i mi.

Mae'r Prif Swyddog Diogelwch – fel y byddech yn ei ddisgwyl – yn cofnodi'n drylwyr yr holl gyfweliadau a'r dystiolaeth sy'n sail i'w adroddiad. Mae'r adroddiadau'n ddogfennau byr sy'n amlinellu'r fethodoleg a ddefnyddiwyd ac yn nodi ei ganfyddiadau ar sail y dystiolaeth a gasglwyd.

Ar 4 Rhagfyr, yn dilyn cyfarwyddyd i mi gan y Prif Weinidog, comisiynwyd y Prif Swyddog Diogelwch i ymchwilio "a oes unrhyw dystiolaeth y cafodd gwybodaeth ei rhannu o flaen llaw heb ganiatâd – hynny yw, y datgelwyd gwybodaeth heb ganiatâd – gan Lywodraeth Cymru ynghylch yr ad-drefnu gweinidogol diweddar". Dechreuodd yr ymchwiliad ar unwaith gan ddilyn yr arferion safonol a amlinellir uchod. Gofynnwyd i bob unigolyn a oedd o bosib yn medru cyrraedd at yr wybodaeth am yr ad-drefnu ymateb gan roi manylion penodol perthnasol i'r ymchwiliad.

Mae'n anarferol cyfweld pobl y tu allan i Lywodraeth Cymru mewn perthynas ag ymchwiliadau i rannu gwybodaeth heb awdurdod, ond ar yr achlysur hwn fe gynhaliwyd rhai cyfweliadau gydag unigolion allanol a ddaeth ymlaen eu hunain i wirfoddoli gwybodaeth neu a nodwyd fel unigolion a oedd o bosib â gwybodaeth berthnasol i'r ymchwiliad.

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE

Parc Cathays • Cathays Park
Caerdydd • Cardiff
CF10 3NQ

Ffôn • Tel 0300 025 3289
PS.PermanentSecretary@llyw.cymru
Gwefan • Website: www.llyw.cymru

Casgliad y Prif Swyddog Diogelwch yn yr achos hwn oedd nad oedd tystiolaeth bod gwybodaeth am yr ad-drefnu gweinidogol wedi ei rannu heb awdurdod o flaen llaw gan Lywodraeth Cymru.

Gobeithio y bydd Aelodau'r Cynulliad yn cydnabod fy mod wedi cymryd pob cam posib i ymateb yn gadarnhaol i benderfyniad y Cynulliad heb ddatgelu manylion am y sawl a gafodd eu cyfweld na'r wybodaeth a gyflwynwyd ganddynt.

Yn gywir,

Shan Morgan

**Shan Morgan**
Ysgrifennydd Parhaol/ Permanent Secretary
Llywodraeth Cymru/ Welsh Government

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE

Parc Cathays ● Cathays Park
Caerdydd ● Cardiff
CF10 3NQ

Ffôn ● Tel 0300 025 3289
PS.PermanentSecretary@llyw.cymru
Gwefan ● Website: www.llyw.cymru